



# Ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

## YMATEB GAN CGGC

1. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r sefydliad cenedlaethol o aelodau ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw dyfodol lle mae'r mudiadau gwirfoddol a gwirfoddoli yn ffynnu ledled Cymru, gan wella llesiant i bawb. Ein cenhadaeth yw bod yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol drwy gysylltu, galluogi a dylanwadu.
2. Rydym ni'n falch o gael y cyfle i ymateb i [ymgynghoriad](#) y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Mae'r ymateb hwn yn defnyddio deunydd blaenorol a gynhyrchwyd gan CGGC, ac mae'n cynnwys peth dystiolaeth gan aelodau a phartneriaid CGGC; fodd bynnag, bu'n anodd ennyn cyfranogiad oherwydd amseriad yr ymgynghoriad hwn. Dydy cynnal ymgynghoriadau dros gyfnod y Nadolig ddim yn ddelfrydol, a gofynnwn i chi wneud pob ymdrech i osgoi gwneud hynny yn y dyfodol.

## PWRPAS Y BIL

3. Yn sicr fe ddylai llywodraeth leol gael “ffyrdd newydd i gefnogi a gwasanaethu cymunedau”, ond fe ddylai llywodraeth leol hefyd gefnogi'r rhai nad ydynt yn rhan o gymuned, neu'r rhai sydd ddim yn teimlo eu bod yn rhan o gymuned, naill ai drwy ddewis neu oherwydd allgáu.

## ETHOLIADAU

4. Mae CGGC yn croesawu ymestyn y bleidlais i bobl ifanc 16 ac 17 oed ac i ddinasyddion tramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru. Mae nifer o'n haelodau wedi bod yn galw am hyn. Yn yr un modd, rydym yn croesawu cynigion i ganiatáu i ddinasyddion o unrhyw wlad sefyll ar gyfer llywodraeth leol.
5. Fodd bynnag, gallai newidiadau i drefniadau etholiadol awdurdodau lleol beri dryswch. Os ydy cynghorau am gael dewis Y Cyntaf i'r Felin a Phleidlais Sengl Drosglwyddadwy, bydd angen rhaglen gadarn i ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn egluro pam y gallai systemau pleidleisio fod yn wahanol rhwng awdurdodau lleol yn ystod yr un cyfnod etholiadol a pham bod hyn yn fanteisiol. Gallai diffyg dealltwriaeth ymysg y cyhoedd yn y maes hwn olygu bod rhai'n teimlo bod diffyg cyfreithlondeb yn y broses etholiadol. Ar adeg pan fo ymddiriedaeth mewn gwleidyddion a'r broses ddemocrataidd mor isel, gallai'r ddeddfwriaeth dan sylw beri'r risg o wreiddio agweddau negyddol yn hytrach na'u lliniaru.
6. Rhaid rhoi ystyriaeth bellach cyn caniatáu i swyddogion cofrestru ychwanegu unigolion at y Cofrestri Etholiadol heb i'r unigolion hynny ymgeisio. O blaid hynny, bydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i grwpiau anodd eu cyrraedd leisio eu barn yn y broses ddemocrataidd. Mae'n fantais bwysig, ac ni ddylid ei hanwybyddu. Serch hynny, rydym yn ategu pryderon sydd wedi cael eu lleisio'n barod gan Cytun sef na ddylid cynnwys pobl ar y gofrestr 'agored' (lle mae'r data ar gael i drydydd partïon), am fod rhesymau dilys, fel merched yn dianc rhag trais domestig, pam na fyddai pobl yn dymuno cael eu cynnwys ar gofrestr o'r fath. Ond hyd yn oed os ydynt yn cael eu hychwanegu at y gofrestr 'gaeedig' yn unig, lle nad ydy'r data ar gael i drydydd partïon, mae dal yn bosibl i'r cyhoedd weld y gofrestr hon yn swyddfeydd y cyngor, felly mae'r risg yno o hyd i bobl gael eu hadnabod yn groes i'w dymuniad. Dydy'r Asesiad Effaith a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r dogfennau ymgynghori ddim yn ymdrin â'r maes hwn. Byddem yn argymhell ymgynghori ymhellach ar y pwynt hwn, yn arbennig â sefydliadau fel Women Connect First a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru.
7. Gallai rhoi pŵer i Weinidogion Cymru osod cynllun peilot etholiadol penodol mewn etholiad llywodraeth leol heb ganiatâd gan y Cynulliad arwain at honiadau am duedd, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, a gallai ddyfnhau'r diffyg ymddiriedaeth yn y prosesau democrataidd. Dylai fod yn ofynnol i Weinidogion roi cynigion o'r fath gerbron y Cynulliad, ac fe

ddylai hwnnw gael rhoi neu wrthod caniatâd ar gyfer cynlluniau peilot o'r fath.

### **PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL**

8. Mae CGGC yn croesawu'r cynigion sy'n caniatáu i gynghorau wneud mwy i wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu cymunedau, ond mae'n rhybuddio ynghylch y syniad bod Gweinidogion yn gallu gosod amodau ar gynlluniau neu brosiectau penodol. Gallai bod yn llawdrwm wrth ddefnyddio'r rheoliad hwn danseilio bwriadau da'r pŵer cymhwysedd cyffredinol.

### **DIWYGIADAU I ANNOG Y CYHOEDD I GYMRYD MWY O RAN MEWN DEMOCRATIAETH LEOL, A GWELLA TRYLOYWDER**

9. Mae CGGC yn cefnogi mesurau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi Strategaethau Cyfranogiad y Cyhoedd, ond mae'n rhaid sicrhau bod cymunedau'n rhan o broses datblygu'r strategaethau hyn fel bod pobl yn gallu dweud wrth swyddogion sut yr hoffent gymryd rhan mewn democratiaeth leol. Byddai ymgysylltu â Chyrff Angori Cymunedol lleol o gymorth mawr yn hyn o beth.
10. Rydym yn cefnogi gwe-ddarlledu cyfarfodydd cyhoeddus, ond mae'n rhaid gadael y cyfarfodydd hyn ar-lein ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben fel bod modd i bobl gyfeirio atynt yn ddiweddarach a dal awdurdodau'n atebol. Ni ddylent gael eu ffrydio'n fyw a pheidio â'u harchifo. Dylai awdurdodau, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, fod yn ymwybodol o broblemau o ran diffyg cysylltiadau band eang dibynadwy, neu ddiffyg sgiliau digidol rhai unigolion, a gwneud yn siŵr bod fformatau a chofnodion eraill o gyfarfodydd o'r fath ar gael yn hwylus.
11. Rydym yn cefnogi mesurau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau nodi eu cyfansoddiadau a sut y byddent yn ymdrin â deisebau.
12. Dylid annog Awdurdodau Lleol i gofrestru ar gyfer yr [Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd](#) sydd wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru

### **GWEITHREDIAETHAU, AELODAU, SWYDDOGION A PHWYLLGORAU AWDURDODAU LLEOL**

13. Rydym yn croesawu darpariaethau i aelodau cabinet y cynghorau rannu swyddi, am ei fod yn gyfle i wella amrywiaeth o fewn democratiaeth leol.
14. Rydym yn croesawu darpariaethau i wneud yn siŵr bod yn rhaid i arweinwyr cynghorau gymryd camau i hyrwyddo safonau ymddygiad uchel yn eu grŵp a chydweithredu â Phwyllgor Safonau'r cyngor i wneud hynny.

### **CYDWEITHIO GAN BRIF GYNGHORAU**

15. Mae'r Gweithgor Llywodraeth Leol wedi nodi angen am “systemau a strwythurau mwy cyson i gefnogi gwaith rhanbarthol a chydweithio”, sydd wedi arwain at sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir yn y Bil. Fodd bynnag, does dim eglurder ynglŷn â sut y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithio ochr yn ochr â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Dydy'r Bil ddim yn cyfeirio at Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos efallai bod gorgyffwrdd rhwng cylch gwaith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Os felly, pa drefniadau fydd yn cael eu gwneud i sefydlu sicrwydd o ran pa fforwm sy'n gyfrifol am beth? Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn chwarae rhan allweddol o ran cyflawni Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac ni ddylai bod dryswch ynghylch eu rôl, a fyddai'n peryglu rhwystro eu gwaith.

### **PERFFORMIAD PRIF GYNGHORAU A'U LLYWODRAETHU**

16. Rydym o blaid ailenwi'r Pwyllgor Archwilio yn Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i adlewyrchu rôl ehangach ar gyfer y pwyllgor i fonitro'r ffordd mae cynghorau'n cael eu llywodraethu, a'r ddarpariaeth i wneud yn siŵr bod yr Archwilydd Cyffredinol, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn rhoi sylw dyledus i'r angen am gyd-drefniant wrth arfer eu swyddogaethau.

### **UNO AC AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD**

17. Mae'r rhan yma'n ymdrin â rhai meysydd yr edrychwyd arnynt mewn ymatebion i ymgynghoriad blaenorol a gyhoeddwyd gan CGGC yn [2017](#) a [2018](#). Er bod uno unrhyw awdurdod lleol bellach yn wirfoddol, rydym yn parhau i gytuno â'r materion rydym wedi'u nodi mewn ymatebion i'r ymgynghoriad blaenorol ynghylch cynnydd mewn darparu gwasanaeth

rhanbarthol.

18. Petai uno'n digwydd:

- Bydd yn bwysig ymgysylltu â sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ar y cyd ar draws mwy nag un rhanbarth neu faes gwasanaeth a sicrhau bod perthynas gadarn yn bodoli rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau perthnasol eraill - e.e. tai ac addysg.
- Bydd angen cyfathrebu'n glir â darparwyr gwasanaethau ynghylch pwy ddylent gysylltu â nhw, a phwy sy'n gyfrifol yn y pen draw am safonau gwasanaeth. Pan fydd dau sefydliad neu fwy yn darparu gwasanaeth mewn rhanbarthau gwahanol, a'r rhanbarthau'n cael eu huno – a oes disgwyl iddynt weithio gyda'i gilydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn? A ddisgwylir i un o'r sefydliadau roi'r gorau i gynnig y gwasanaeth? Mae angen egluro hyn.
- Rhaid i awdurdodau lleol weithio'n agos â'i gilydd i wneud yn siŵr bod gwasanaethau trafnidiaeth sy'n croesi ffiniau rhanbarthol yn cael eu rheoli yn effeithiol ac yn effeithlon.
- Rhaid cynnwys sefydliadau trydydd sector lleol drwy gydol y broses. Gall cyrff seilwaith trydydd sector CGGC a Chynghorau Gwirfoddol Sirol helpu.

19. Rhaid ystyried effaith uno ar sefydliadau cyflenwi'r sector gwirfoddol. Er enghraifft, er mwyn sicrhau diogelwch cymunedol mae'n rhaid cael llawer o wybodaeth leol, daearyddol a diwylliannol, yn ogystal â llunio cysylltiadau â phobl leol. Mae sefydliadau sector wedi lleisio pryderon yng nghyswllt colli gwybodaeth am faterion a phryderon lleol mewn model cyflenwi rhanbarthol, ac y gallai gwasanaethau fynd yn llai effeithiol o ganlyniad i hynny.

## **CYLLID LLYWODRAETH LEOL**

20. Yn [ein hymateb](#) i ymgynghoriad 2018 ar gyfraddau annomestig, roeddem wedi cytuno y dylai fod rheidrwydd ar drethdalwyr i roi gwybod am newid mewn amgylchiadau, ond y dylid darparu arweiniad clir ynghylch ystyr 'newid mewn amgylchiadau'. Os mai'r bwriad yw sicrhau bod rhoi gwybod am newid yn dod yn gyfraith, disgwyliwn am y rheoliadau i weld manylion penodol beth allai "newid" ei olygu.

21. Rydym yn falch nad yw'r Bil yn cyfeirio at y cynigion blaenorol i gael gwared ar y darpariaethau sy'n eithrio sefydliadau elusennol rhag talu cyfraddau ar eiddo gwag.

#### **TRAFODAETH**

22. Bydd CGGC yn falch o drafod y pwyntiau hyn, neu unrhyw bwyntiau eraill yng nghyswllt yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad, gyda swyddogion, pwyllgorau neu'r Gweinidogion ar gais.

David Cook  
Swyddog Polisi, CGGC  
[dcook@wcva.org.uk](mailto:dcook@wcva.org.uk)  
3 Ionawr 2020